

Iau 23^{ain} Chwefror 2017

Annwyl Aelodau Bwrdd Gwasanaethau Sir Fynwy a'r Tîm Cymorth,

Diolch am roi cyfle i mi ddarparu adborth ar eich Asesiad o Lesiant Lleol drafft a anfonwyd i'r swyddfa yn Ionawr 2017.

Y peth cyntaf yr hoffwn ei wneud yw mynegi'n glir fy mod yn gwerthfawrogi'r heriau yr ydych wedi eu hwynebu wrth ddatblygu'r asesiad y tro hwn, ac rwy'n eich llongyfarch ar eich ymdrechion.

Fy mhrif ffocws wrth ddarparu'r adborth hwn yw eich helpu i ystyried i ba raddau y bydd y gwaith a wnaethpwyd gennych hyd yn hyn yn eich helpu i bennu eich cydamcanion ac ymgymryd â chynllunio llesiant. I mi, y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus sy'n rhoi'r cyfleoedd mwyaf i'r sector cyhoeddus yng Nghymru i newid y ffordd yr ydym yn gwneud pethau yng Nghymru a llunio penderfyniadau ar y cyd a chyflwyno gwasanaethau a fydd o fudd i genedlaethau'r dyfodol.

Mae eich asesiad yn rhan allweddol o hyn, a thra fy mod yn gwerthfawrogi na fydd yn cynnwys y darlun i gyd ar yr adeg y byddwch yn ei gyhoeddi, mae'n bwysig ei fod yn amlinellu'n glir a deallus ddarlun o lesiant Sir Fynwy a llesiant eich cymunedau, sy'n berthnasol yn awr ac i mewn i'r dyfodol. Dylai eich asesiad eich galluogi i nodi'n glir yr heriau ar gyfer eich ardal a'ch cymunedau, gan ddatblygu cydamcanion sy'n mynd i'r afael â'r heriau hyn.

Ynghlwm gweler dogfen sy'n rhoi adborth manwl ar eich asesiad drafft, ac sy'n eich annog i feddwl am yr hyn y dylech fod yn adeiladu arno yn y tymor byr, wrth i chi symud tuag at gynllunio llesiant, ond hefyd yn nhermau asesu llesiant yn y dyfodol.

Yn ystod 2017-18 un o'ch tasgau allweddol fydd datblygu eich cydamcanion llesiant fel rhan o'ch Cynllun Llesiant. Mae'r ddeddfwriaeth yn ei gwneud yn ofynnol i chi geisio fy nghyngor ar sut i symud tuag at gwrdd â'ch amcanion yn unol ag egwyddor datblygu cynaliadwy (y pum dull o weithio).

Isod rwy'n amlinellu rhai o'r pethau y byddaf yn edrych amdanynt wrth i fy swyddfa barhau i weithio gyda chi. Yn fy marn i, mae'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (BGCau) sydd wedi dangos eu bod eisoes yn talu sylw i'r pum dull o weithio, mewn sefyllfa dda i ddatblygu amcanion a Chynlluniau Llesiant a fydd yn fanteisiol i bob sefydliad sy'n ymgyfrannu, yn nhermau maccsimeiddio eu cyfraniad cyfunol i'r nodau, a mynd i'r afael â heriau sy'n pontio'r cenedlaethau.

Mae'n amlwg eich bod wedi gwneud ymdrech wirioneddol i **ennyn ymgyfraniad pobl a chymunedau** yn natblygiad eich asesiad, drwy Ein Sir Fynwy, y naratif grymus am eich pum ardal gymunedol a'ch ffocws ar wasanaethau cyhoeddus. Bydd yn bwysig i chi adeiladu ar hyn i sicrhau eich bod yn parhau i roi cyfleoedd i ystod eang o randdeiliaid a dinasyddion i ymgyfrannu drwy ddylanwadu ar ddatblygiad eich amcanion a medru dangos bod eu mewnbwn yn cael effaith ar yr hyn yr ydych yn ei wneud

Mae'n amlwg bod gwaith arwyddocaol wedi cynhyrchu'r asesiad, ac mae eich naratif a'ch arddull ddeongliadol yn cael ei hategu gan ddefnydd diddorol a deallus o ddata meintiol ac ansoddol. Gallai eich gwaith ar dueddiadau'r dyfodol adeiladu ar hyn drwy roi mwy o fewnwelediad ar faterion allweddol ar gyfer yr hirdymor yn Sir Fynwy, yn arbennig drwy ystyried pa heriau a gyflwynir ganddynt, a pha ardaloedd penodol, cymunedau a phobl sy'n debygol o gael eu heffeithio fwyaf neu sydd fwyaf agored i niwed. Deallaf fod eich awdurdod lleol yn sefydlu rhaglen Dyfodol Sir Fynwy i adeiladu gallu a rhagwelediad i helpu i ddatblygu dulliau o ddatrys rhai o'ch heriau mwyaf, a gallai hyn gyflwyno cyfle da i adeiladu arno ddadansoddiad o dueddiadau'r dyfodol. Buasai gennyf ddiddordeb i glywed mwy am y modd y bydd hyn yn mynd rhagddo.

Mae'n ddefnyddiol eich bod yn dangos sut fydd y themâu a'r materion allweddol a nodir gennych yn cyfrannu i'r nodau llesiant niferus. Mae'r ymagwedd hon yn addas ar gyfer rhoi mwy o ystyriaeth i'r integreiddiad rhwng llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol. Bydd hyn yn arbennig o bwysig wrth i chi feddwl am rolau perthnasol eich gwahanol sefydliadau wrth facsimeiddio eich cyfraniad i'r nodau.

Ac mae cydweithio'n hanfodol i hyn i gyd - yng Ngwent rydych eisoes yn cydweithio'n rhanbarthol drwy'r G7 a GSWAG ac yn awr mae gennych y cyfle i symud eich gwaith partneriaeth i lefel newydd, gan gydweithio gydag adnoddau a darganfod dulliau newydd o ddelio â hen broblemau. Dylai eich asesiad eich helpu i adnabod y cyfleoedd mwyaf ffrwythlon ar gyfer gwneud hyn.

Mae eich tîm cymorth wedi gweithio'n galed i ddatblygu'r asesiad hwn a bydd ar y bobl sy'n cynorthwyo eich cynllunio llesiant angen eich cefnogaeth lwyr. Nodweddion allweddol yn hyn o beth, mae'n debygol, fydd yr arweinyddiaeth a ddangosir gennych a'ch parodrwydd i roi gofod a chaniatâd i bobl archwilio dulliau newydd o fynd i'r afael â hen broblemau. Yn ei hanfod, mae'r newid hwn mewn diwylliant yn crynhoi natur Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Gan ragweld y gofyniad i mi roi cyngor i chi ar y modd y dylech gymryd camau i gwrdd â'ch cydamcanion hoffwn weld manylion pellach o'r modd y byddwch yn defnyddio eich asesiad wrth i chi symud tuag at gynllunio llesiant. Buaswn yn gwerthfawrogi'n fawr petaech yn rhoi gwybod i fy swyddfa sut yr ydych wedi ymateb i'n hadborth. Gan gadw hyn mewn golwg bydd hefyd yn bwysig i chi roi fy adborth i'r pwyllgor craffu sy'n arwain y gwaith o graffu ar waith y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus. Adnabuwyd

yr angen am ymagwedd fwy adeiladol tuag at graffu sy'n rhan bwysig o facsimeiddio gweithredu ar y cyd ar lefel leol.

Gobeithiaf fod ein hadborth yn glir ac yn ddefnyddiol yn y cyfnod hwn. Fodd bynnag, rhaid i mi ailadrodd nad wyf yn gweld eich asesiad fel digwyddiad unwaith ac am byth. Wrth symud ymlaen byddaf yn rhoi cyfleoedd i Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus rannu dysgu ac arfer gorau a fydd gobeithio yn ennyn eich ymgyfraniad, er mwyn darparu'r llwyfan gorau i chi ar gyfer cyflawni eich ymrwymadau parhaus o dan y Ddeddf.

Dymuniadau gorau



Sophie Howe
Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru

Adborth oddi wrth Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru ar Aseiad o Lesiant draft Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Fynwy

1. Cyflwyniad

Mae'r adroddiad canlynol yn rhoi adborth Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol i Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Fynwy ar *Ymgynghoriad ar Aseiad o Lesiant drafft Sir Fynwy*. Mae'r adborth hwn yn seiliedig ar yr adolygiad a wnaed gan ein tîm prosiect¹ o'r dogfennau a'r trafodaethau allweddol canlynol:

- Aseiad Llesiant Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Fynwy: Crynodeb
- Aseiad Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Fynwy
- Trafodaeth rhwng y tîm prosiect ac aelodau tîm y BGC ar 16^{eg} Chwefror

Y bwriad yw i'r adborth hwn gael ei ddefnyddio i drwytho cyhoeddi'r aseiad yng ngwanwyn 2017 - [lle mae hynny'n bosibl o gydnabod yr amserlenni sy'n bodoli](#) - ond mae'n bwysicach ei fod yn trwytho prosesau parhaus datblygiad eich aseiad a'ch cynllunio llesiant.

Mae'r aseiad wedi ei adolygu gan y tîm prosiect a ddefnyddiodd set o feini prawf, wedi eu datblygu'n arbennig ar gyfer ffocysu ar agweddau o gynhyrchiad a methodoleg ac ar y dadansoddiad o'r aseiad a gofynion y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae'r meini prawf hyn yn ein galluogi i adolygu ystod eang o ymagweddau tuag at aseiad lleol o lesiant, sydd wedi cael eu defnyddio ledled Cymru. Mae hyn hefyd wedi ein galluogi i ddarparu adborth pwrpasol i FGCau, gan amlygu cryfderau a meysydd â photensial ar gyfer eu gwella. Bydd yr ymagwedd gyson hon hefyd yn galluogi'r Comisiynydd i adnabod materion allweddol ac amlygu cyfleoedd ar gyfer dysgu ar y cyd, ar lefel Cymru-gyfan, ar gyfer yr ystod eang o gyrff y sector cyhoeddus a chyrrff eraill sy'n ymgyfrannu yng nghynllunio llesiant.

Tra'n bod yn deall o'n sgwrs dros y ffôn bod yr Aseidiadau Llesiant yn broses barhaus, a bod gwaith pellach ar y gweill, mae'n bwysig eich bod yn nodi a gweithredu ar y sylwadau canlynol wrth i'r aseiad llesiant gael ei ddatblygu, ei addasu a'i gynyddu i drwytho cynllunio llesiant ar draws y BGC.

¹ Dr. Alan Netherwood, Netherwood Sustainable Futures, Dr. Andrew Flynn, Prifysgol Caerdydd a Dr. Mark Lang, Mark Lang Consulting

2. Nodau llesiant cenedlaethol

Un o'r materion yr ydym wedi ei ystyried yw pa mor effeithiol yr adlewyrchwyd y saith nod llesiant cenedlaethol yn yr asesiad, gan fod y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn ei gwneud yn ofynnol i FGCau ddangos sut y maent yn cynllunio i facsimeiddio eu cyfraniad i'r nodau llesiant.

Mae'n bwysig bod yna gysylltiad clir rhwng y data mewn asesiadau, ei ddadansoddiad a'n dealltwriaeth o bob agwedd ar lesiant yn ein cymunedau. Deallwn y bydd BGCau yn datblygu gwahanol ffyrdd o adlewyrchu llesiant; yn achos Sir Fynwy rhwng llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol ar draws yr ardal ac o fewn y pum ardal gymunedol.

Cadarnhaol yw gweld bod gwaith wedi ei wneud i ddeall cyfraniad y pynciau a drafodir yn yr asesiad i'r nodau llesiant, a nodir yn y matrices yn Ffigur 2. Gellir gwella'r adran hon drwy roi cyd-destun o paham y cynhyrchwyd y matrices, pwy a'i gynhyrchoedd a beth mae'n ei ddweud wrthym. Tra bo peth o'r wybodaeth yn eglur, byddai'n ddefnyddiol i ddeall y rhesymeg tu cefn i'r cysylltiadau a natur y cyfraniad. Gallai hefyd fod yn ddefnyddiol i chi ystyried ble byddai cyfeiriad at y nodau llesiant yn medru gwella ac atgyfnerthu'r naratif drwy'r dogfennau drwyddi draw.

Mae'r matrices hwn yn adnodd defnyddiol, yn arbennig wrth i chi symud tuag at gynllunio llesiant. Gellid gofyn am archwiliad o'r cwestiynau allweddol canlynol fel rhan o'ch cynllunio llesiant: sut fedrai'r BGC wneud y cyfraniad mwyaf i'r ardaloedd a nodwyd? Pa feysydd yng ngweithgaredd BGCau sydd ag angen gwella'u cyfraniadau? Ble mae'r cyfleoedd i gyfrannau i nodau niferus wrth fynd i'r afael â materion allweddol? Byddai'r dadansoddiad hwn yn trwytho datblygiad y Cynllun ac yn galluogi'r BGC i ddeall arwyddocâd posibl ac effaith gweithredu ar y cyd i facsimeiddio eu cyfraniad. Bydd hyn yn arbennig o bwysig wrth i'r asesiad ddiwallu'r dyhead a nodwyd: 'y pethau a ddylai gwasanaethau cyhoeddus eu gwneud i facsimeiddio llesiant cenedlaethau presennol a chenedlaethau'r dyfodol.'

3. Cynnwys data – ardal a lle

Mae'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn ei gwneud yn ofynnol i asesiadau ffocysu ar yr ardal a'r 'lle' ac adlewyrchu'r amrywiaeth o gymunedau ledled eich ardal. Rydym wedi ystyried i ba raddau y mae cynnwys data eich asesiad yn gwneud hyn.

Nodwyd bod y BGC yn defnyddio pum Ardal Gymunedol ar draws Sir Fynwy i adeiladu darlun o lesiant ar gyfer cymunedau penodol: Abergafenni a'r cymunedau cyfagos, Mynwy a chymunedau cyfagos; Calon

Sir Fynwy; Glannau Hafren a Chas-gwent a Dyffryn Gwy Isaf. Mae'n glir iawn o'n sgwrs dros y ffôn gyda thîm y BGC mai'r ardaloedd sy'n taro tant gyda'r cymunedau, ac yn darparu'r ffordd orau i bartneriaid gasglu data lleol. Bydd cynnal yr ymagwedd hon yn bwysig wrth i chi adeiladu eich sylfaen dystiolaeth ar lesiant yn yr ardal.

Mae'r brif ddogfen asesu'n rhoi set o grynodedbau o Ardaloedd Cymunedol clir a threfnus, wedi eu darlunio'n dda. Mae'r naratif ym mhob un yn gymeradwy, ac yn tynnu sylw at y prif faterion llesiant o dan y pedair thema. Mae dehongliad y dangosyddion allweddol a'r ymagwedd eang tuag ddisgrifio llesiant lleol yn rhoi dealltwriaeth glir o'r heriau ym mhob ardal. Mae'r ymagwedd a fabwysiadwyd ar gyfer deall goblygiadau llesiant Baracs Bletchley yn arbennig o gadarnhaol.

Gellir cryfhau'r Crynodeb drwy ddyblygu'r arddull ddeongliadol hon. Ar hyn o bryd mae hyn yn fwy disgrifiadol ac yn llai clir am ba beth yw'r materion allweddol ar gyfer pob cymuned. Mae'r 'mater' mewn rhai achosion yn cael ei drin fel un sydd ymhlyg yn y dangosydd, er enghraifft wrth restru ardaloedd yn erbyn ei gilydd, h.y. beth sy'n arwyddocaol am wahaniaethau gofodol ar draws yr ardal? Beth ddywed graddfeydd swyddi gwag yng nghanol trefi wrthym am lesiant?

Yr hyn y gellid ei wneud yn eglurach ym mhob dogfen yw arwyddocâd y mater i'r ardal. Mae arwyddocâd hefyd yn fater sy'n cael ei drin ymhellach ymlaen yn yr adborth hwn..

4. Cynnwys data – anghenion gwasanaethau cyhoeddus

Credwn ei bod yn bwysig bod gennych ddarlun clir o wahanol anghenion pobl a chymunedau yn awr ac yn y dyfodol, a bod goblygiadau'r rhain yn cael eu deall. Rydym wedi ystyried i ba raddau y mae cynnwys data'r asesiad yn ffocysu ar anghenion gwasanaethau cyhoeddus, o fewn cymunedau ac ar gyfer grwpiau arbennig o bobl.

Blaenoriaeth i fy Swyddfa yw annog cyrff cyhoeddus a BGCau i sicrhau eu bod yn y lle cyntaf yn ennyn ymgyfraniad pobl a chymunedau mewn ffyrdd sy'n rhoi mwy o ymwybyddiaeth iddynt o brofiadau gwirioneddol pobl o gyrff cyhoeddus, ac yn ail, eu bod yn gweithredu ar y mewnwelediad hwn pan fyddant yn gwneud penderfyniadau ac yn darparu gwasanaethau. Er enghraifft mae'n gadarnhaol i weld sut mae ymgysylltu wedi cynnwys ffocws ar wasanaethau cyhoeddus drwy gyfrwng Ein Sir Fynwy a sut mae'r Asesiad Anghenion Pobl wedi bwydo i mewn i'r broses Asesiad Llesiant o gwmpas Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod ac Iechyd Meddwl ar draws yr ardal.

Mae'n gadarnhaol gweld adran neilltuol ar 'heriau a chyfleoedd sy'n wynebu gwasanaethau cyhoeddus' tuag at ddiwedd y brif ddogfen a Chrynodeb, a'r rhain wedi eu bwriadu i helpu i drwytho'r ymgynghoriad ar yr asesiad. Byddai'r ddwy ddogfen ar eu hennill o gael eglurhad cliriach am y modd y cafodd y materion arbennig hyn ei 'distyllu' o'r data – a yw'r rhain yn themâu cylchol? A ddyfernir mai hwy yw'r mwyaf arwyddocaol? Mae rhai o'r materion hyn yn gyffredinol ac yn ffocysu ar yr hyn sydd angen ei wneud (amgylchedd naturiol ac adeiledig, diwylliant), a rhai wedi ffocysu ar wasanaethau (ymddygiadau iach).

Ymddengys bod 'penawdau' ar goll o'r rhestr hon y bydd angen mynd i'r afael â hwynt gan wasanaethau cyhoeddus mewn partneriaeth â'r sector preifat a'r trydydd sector – er enghraifft, 36% o bobl yn byw mewn tldi; 20% o blant yn byw mewn tldi; cymunedau mewn perygl o lifogydd difrifol ac ynysu gwledig, nad ydynt yn cael sylw yma. Dylid gofalu peidio colli'r darlun mawr drwy ffocysu ar wasanaethau'n rhy gynnar yn y broses asesu. Er bod yr adran hon yn ceisio cyfleu nad rhestr o flaenoriaethau yw hi, gellir camddehongli hyn a'i gweld fel crynodeb o'r materion allweddol (sy'n anghywir). Cwestiwn allweddol ar gyfer eich cynllunio llesiant fydd sut mae gwasanaethau cyhoeddus yn aildrefnu eu hunain i fynd i'r afael â'r her gyfunol a gyflwynir gan y materion mawr hyn.

5. Dadansoddi meintiol ac ansoddol

Rydym yn cydnabod yr her o ennill cytbwysedd rhwng data, mewnwelediadau a thystiolaeth ar gyfer cynhyrchu dealltwriaeth orffenedig o lesiant cymunedau ac unigolion yn y tymor byr, canolig a'r hirdymor. Un o'n prif ystyriaethau fu i ba raddau y mae dadansoddiad meintiol ac ansoddol a dulliau dadansoddi wrth asesu'n rhoi darlun cyffredinol o lesiant amgylcheddol, economaidd, diwylliannol a chymdeithasol, ynghyd â sylwebaeth ddechreuol ar oblygiadau'r 'darlun' hwn i gymunedau. h.y. beth sydd o bwys mewn gwirionedd?

Fel y trafodwyd ym mhwynt 3 mae'r naratif a'r arddull ddeongliadol wedi eu hategu gan ddefnydd deallusol o ddata meintiol ac ansoddol. Mae'n gadarnhaol i weld yn y brif ddogfen nad yw data'n sbarduno'r naratif, ond yn darlunio'r 'stori' lesiant. Mae'r dyluniad, tablau, graffiau a darluniadau'n cael eu defnyddio'n dda i gyfleu'r heriau allweddol a rhoi gwybodaeth leol.

Mae'r data a'r dadansoddiad ym mhob adran o safon uchel iawn. Mae'r paragraffau canlynol yn rhoi adborth mwy penodol ar bob thema ac yn cynnwys rhai awgrymiadau ar gyfer cydbwysu a chyfleu'r materion allweddol yn fwy effeithiol:

Economi - mae'r ffocws ar agweddau cadarnhaol o fyw yn Sir Fynwy, ac asedau a natur anghydraddoldebau cudd yn drawiadol. Mae'n arbennig o braf gweld y naratif yn pwysleisio manteision economaidd, sgiliau ac asedau pobl oedrannus a phobl sy'n heneiddio yn ogystal â'r effaith ar y galw am wasanaethau. Gellid hefyd ddefnyddio gwybodaeth ar yr economi amaethyddol sy'n ymddangos yn yr adran ar yr Amgylchedd fel enghraifft o bwysigrwydd yr elfen hon o'r economi lleol. Gellid hefyd ddefnyddio hyn o fewn y pum cymuned. Ar gyfer y cymunedau hyn, bydd yn bwysig i ddeall ble mae pobl yn gweithio, rôl busnes yn y gymuned, bywiogrwydd canol trefi, rôl manwerthwyr annibynnol. A ymgysylltwyd â busnesau ar eu rôl o fewn y cymunedau hyn? Gellid hefyd gynnwys gwybodaeth ansoddol bellach ar natur yr economi anariannol a'r economi cymdeithasol o gadw mewn golwg y pwyslais ar gyfalaf cymdeithasol mewn adrannau eraill.

Fel pwynt cyffredinol, gellid rhoi mwy o bwyslais ar ddylanwad Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn nhermau ei ddylanwad ar Sir Fynwy gan ei fod yn ased cymdeithasol, amgylcheddol, economaidd a diwylliannol unigryw.

Cymdeithasol - mae'r heriau allweddol i lesiant cymdeithasol yng nghyd-destun ei natur wledig, mynediad i wasanaethau, iechyd a thai wedi eu darlunio'n dda gan ddata meintiol ac ansoddol. Mae'r Crynodeb yn defnyddio cymariaethau sy'n berthnasol i'r ardaloedd hyn, ac mae angen eglurhad pellach o'r hyn a ddarlunnir gan y cymariaethau hyn. Gallai'r ddwy ddogfen (fel y nodwyd eisoes) fod yn gliriach am arwyddocâd y materion allweddol i Sir Fynwy'n gyffredinol ac i'r pum cymuned e.e. pa mor bwysig/arwyddocaol yw ynysu gwledig, tanau neu Ymddygiad gwrthgymdeithasol, neu seibr-droseddu a ble a pham fod yna wahaniaeth? Beth yw'r effeithiau ar lesiant? Mewn llawer achos ceir disgrifiad o ffeithiau a rhai ymyriadau ond ychydig o ddealltwriaeth o arwyddocâd. Mae angen mwy o ddehongli. Mae'r naratif am ofalwyr yn enghraifft dda o ble mae hyn wedi cael ei wneud yn dda.

Credwn hefyd y gellid ffocysu mwy ar asedau cymdeithasol yn Sir Fynwy ac y gellid casglu tystiolaeth ansoddol fel rhan o'r broses llesiant wrth iddi fynd rhagddi e.e. grym y sector cymunedol wrth gefnogi llesiant cymdeithasol - natur rhwydweithiau cymdeithasol, ffabrig cymdeithasol trefi a phentrefi, a rôl yr economi anariannol, asedau ffisegol, banciau bwyd, trosglwyddo asedau cymunedol ac yn y blaen.

Amgylchedd: Mae lefel y dehongli, y disgrifio a'r lleoleiddio yn y brif ddogfen yn ardderchog. Mae'n arbennig o dda am dynnu sylw at yr oblygiadau i lesiant. Fel yn yr adrannau eraill, gellid defnyddio'r wybodaeth hon yn well yn y Crynodeb.

Yn y ddwy ddogfen, gellid crynhoi yn well arwyddocâd materion llesiant i Sir Fynwy yn gyffredinol ac i bob ardal gymunedol. Er enghraifft, gallai'r asesiad roi arwydd o raddfa'r broblem yn ymwneud ag ansawdd dŵr yn afonydd Sir Fynwy; y prif gyfleoedd ar gyfer lleihau allyriadau; a fydd cynnydd mewn llifogydd yn gwneud rheoli peryglon llifogydd mewn ardaloedd penodol yn anodd? Mae peth o'r testun yn ffocysu ar ddangosyddion a byddai ar ei ennill o gael mwy o ddehongli – mae priffyrdd yn glir, ond pa mor gydnerth ydynt i newid yn yr hinsawdd? A yw casglu gwastraff yn anghynaliadwy? A yw seilwaith gwyrdd yn cael ei reoli'n ddigonol? Pa safleoedd dynodedig sy'n arbennig o agored i niwed?

Diwylliant: Mae'r data ar lyfrgelloedd, iaith, ethnigrwydd, ysgolion, tirwedd, treftadaeth a digwyddiadau'n rhoi dealltwriaeth gyffredinol o asedau diwylliannol ar draws Sir Fynwy. Mae'r adran hon yn y Crynodeb yn llai deongliadol nag mewn adrannau eraill (ac yn amlwg yn ffocysu ar ddangosyddion) a byddai ar ei hennill o gael disgrifiadau mwy cynnil o weithgaredd diwylliannol. Er enghraifft, mae'r asesiad yn tynnu sylw at rym y sector gwirfoddol ond gallai roi gwell disgrifiad o'u gweithgareddau a dealltwriaeth o'u capasiti. Mae'r adran yn y brif ddogfen yn rhoi peth data ansoddol da a disgrifiad o fywiogrwydd diwylliant Sir Fynwy o ran celfyddyd, iaith, rhwydweithiau cymdeithasol, gweithgareddau diwylliannol, bwyd a diodydd lleol, sioeau amaethyddol, rhwydweithiau gwybodaeth a gwirfoddoli.

6. Heriau allweddol

Mae'n bwysig bod asesiadau llesiant, wrth asesu cyflwr llesiant, yn ffocysu ar heriau allweddol i lesiant dros y tymor byr, canolig a'r hirdymor, yn ogystal ag ar y nodweddion cadarnhaol ac asedau'r ardal. Mae hyn yn cynnwys y cyfaddawdau rhwng gwahanol nodau llesiant, tensiynau a'r diffygion o fewn yr ardal.

Fel y disgrifiwyd mewn pwyntiau cynharach yn y ddogfen hon, mae'r asesiad yn amlygu'n glir beth yw'r heriau i lesiant ar draws Sir Fynwy. Gellir gwella hyn drwyddi draw drwy ddehongliad pellach o'u harwyddocâd i Sir Fynwy a'r pum cymuned – sut y byddant yn effeithio ar lesiant, a hefyd paham mae'r gwendidau neu'r cryfderau hyn yn amlygu eu hunain mewn ardaloedd arbennig. Byddai'n ddefnyddiol i gael dealltwriaeth gliriach o ba gymunedau a phobl sy'n gydnerth neu'n agored i gael eu niweidio yn sgil tueddiadau cyfredol ac yn y dyfodol. Bydd hyn yn helpu'r BGC i ddeall pa ymagweddau ataliol y gellid eu datblygu, a dylai fod yn ffocws ar gyfer gwaith ar yr asesiad yn y dyfodol.

Mae effaith Brexit, newid hinsawdd, caledi, diwygio lles, poblogaeth sy'n heneiddio, tueddiadau iechyd, hygyrchedd gwledig i gyd yn cael eu crybwyll lawer gwaith, mewn llawer gwahanol gyd-destun, a gellid eu dwyn at ei gilydd mewn crynodeb o faterion allweddol sydd wedi ymddangos o'r asesiad hyd yn hyn (os gwelwch yn dda gweler hefyd sylwadau ym mhwynt 4 ar adran derfynol ar wasanaethau cyhoeddus).

Mae yna ddata cyfoethog yn y ddogfen sy'n cynrychioli dadansoddiad craff a dylai hyn gael ei amlygu'n fwy grymus yn y Crynodeb ac adran gloi o fewn y brif ddogfen.

7. Ymgysylltu, ymgyfrannu a chydweithio

Mae'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn dangos yn glir bod cydweithio ac ymgyfrannu yn ddau o'r pum dull o weithio sydd ag angen i FGCau eu defnyddio'n gyson yn eu gwaith. Fel canlyniad, bu gennym ddiddordeb arbennig yn lefel a dulliau ymgysylltu, ymgyfrannu a chydweithio ar draws y bartneriaeth a ystyriwyd wrth gynhyrchu'r asesiad, yn cynnwys ymgysylltiad â chymunedau, y cyhoedd, y trydydd sector a sefydliadau'r sector preifat.

Mae'n amlwg bod Ein Sir Fynwy wedi ennyn ymgyfraniad dinasyddion, grwpiau cymunedol, a phartneriaid yn y gwaith o gasglu data meintiol ac ansoddol i drwytho'r asesiad. Mae hefyd yn beth cadarnhaol ei bod yn glir i randdeiliaid y bydd eu hymgysylltiad yn parhau drwy gydol y cyfnod ymgynghori, a bod yr asesiad yn broses barhaus. Deellir o'r sgwrs dros y ffôn a thîm y BGC bod llawer iawn o ymdrech wedi ei gwneud i drwytho'r asesiad drwy'r ymgynghoriad hwn fel yr amlygir yn Atodiad 2. Mae canlyniadau'r ymgynghoriad wedi eu cyflwyno'n glir ac wedi eu gwau yn dda i mewn i'r naratif.

Nid yw'n glir o'r asesiad i ba raddau mae'r sector preifat wedi ymgyfrannu neu i ba raddau yr ymgynghorwyd â hwynt ar lesiant yn yr ardal, a chafodd hyn ei nodi fel maes ag angen rhagor o waith yn sgil ein sgwrs dros y ffôn gyda thîm y BGC. Mae hyn yn amlwg yn bwysig ar gyfer yr adran 'Economi', ond yr un mor bwysig am eu mewnwelediad i agweddau eraill ar lesiant. Mae'n arbennig o bwysig i ddeall hyn yng nghyd-destun gwahanol raddfeydd gofodol, yn amrywio o'r economi amaethyddol ar draws Sir Fynwy a chanol trefi i rôl busnesau wrth gefnogi gweithgaredd cymdeithasol a diwylliannol.

Mae'n dda clywed hefyd i ba raddau mae'r asesiad hwn wedi gweithredu fel catalydd i ddatblygu cydweithio ar draws y BGC. Dysgasom hefyd o'n sgwrs dros y ffôn bod y cydweithio gyda GSWAG, partneriaid statudol a GAVO wedi'ch helpu i ddatblygu eich data, gan adeiladu capasiti rhwng y sefydliadau hyn. Byddai'n beth da i'r asesiad terfynol egluro manteision y cydweithio hwn a natur cyfraniad y sefydliadau. Mae hyn yn gadarnhaol a dylid adeiladu arno wrth i chi symud ymlaen i gynllunio llesiant.

8. Integreiddio

Un o amcanion allweddol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yw datblygu integreiddio ar bob lefel ar draws y sector cyhoeddus. Credwn ei bod yn bwysig ein bod yn deall y gydberthynas rhwng llesiant amgylcheddol, cymdeithasol, economaidd a diwylliannol. Fel canlyniad rydym wedi bod yn awyddus i ystyried faint o integreiddio sy'n bodoli rhwng polisi traddodiadol a seilos sefydliadol wrth gynhyrchu'r Aseiad. Mae'n bwysig bod y data a restrir yn yr aseiad yn cael ei archwilio ar draws polisi traddodiadol a seilos sefydliadol, i ddehongli beth a olyga hyn i lesiant yn yr ardal.

Fel y trafodwyd eisoes mae ymagwedd y BGCau tuag at archwilio llesiant yn Sir Fynwy o dan bedair thema, ac yn y pum ardal ddaearyddol yn rhoi dealltwriaeth gyfoethog o'r heriau, ac mewn rhai achosion y darlun 'gofodol' o lesiant. Mae yna le i roi ystyriaeth bellach i ddata o bob adran (ac o fewn pob adran) ochr yn ochr ag eiddo'r lleill, ynghyd ag ystyriaeth o'r gydberthynas rhwng data.

Mae hon yn ardal i chi roi ystyriaeth bellach iddi wrth i chi gwblhau eich aseiad ar gyfer ei gyhoeddi, ac wrth i chi symud tuag at gynllunio llesiant. Mae yna le ar gyfer mwy o integreiddio ac archwiliad pellach o'r berthynas polisi/heriau rhwng pob thema – er enghraifft, ynysu gwledig ac iechyd meddwl, datblygu economaidd a pherygl llifogydd, a chyfalaf cymdeithasol, technoleg gwybodaeth a datblygu economaidd. Bydd hyn yn galluogi'r BGC i ddeall y penderfynyddion sy'n gyrru llesiant ac adnabod gweithgaredd ataliol ac ymagweddau integredig ar gyfer gwella llesiant.

Deallwn o'r sgwrs dros y ffôn gyda'r tîm bod gwaith eisoes ar y gweill a chynlluniau i archwilio ymhellach ganfyddiadau'r aseiad gyda phartneriaid. Dylai'r gydberthynas hon ffurfio rhan o'r gweithgaredd hwn.

9. Rhagwelediad a thueddiadau'r dyfodol

Un o heriau allweddol y ddeddfwriaeth yw ystyried llesiant yn y tymor byr, canolig *a'r hirdymor* drwy gydol yr aseiad a'r broses Gynllunio. Mae gennym ddi-ddordeb yn lefel y rhagwelediad a'r defnydd a wneir o ddadansoddiad tueddiadau'r dyfodol wrth gynhyrchu'r aseiad ynghyd â chydabyddiaeth o lesiant cenedlaethau'r dyfodol.

Deallwn yn dilyn ein sgwrs bod yna gyfle i gynnwys mwy o ddadansoddiad ar effaith tueddiadau'r dyfodol ar lesiant a buaswn yn eich annog i dalu sylw i hyn o fewn y BGC.

Gallai'r adran ar Dueddiadau'r Dyfodol yn y brif ddogfen ddehongli ymhellach

effaith ac arwyddocâd tueddiadau poblogaeth, newid hinsawdd, tueddiadau economaidd, cynefinoedd a gwasanaethau ecosystem a thueddiadau iechyd. Beth yw'r effeithiau tebygol ar Sir Fynwy – pa heriau a gyflwynir ganddynt, ac ar ba leoliadau penodol, cymunedau a phobl y bydd yr effaith mwyaf? A yw ymagweddau presennol yn ddigonol? Er enghraifft, tuag at y newid yn yr hinsawdd – pa mor arwyddocaol fydd y newid tebygol yn nhermau dŵr, priddoedd a'i effeithiau ar Sir Fynwy? Dyma'r math o faterion y gellid eu harchwilio gan y BGC wrth i chi symud tuag at gynllunio llesiant.

Trafodwyd a chydabuwyd hon fel her sy'n mynd yn ei blaen yn ystod y sgwrs dros y ffôn gyda thîm y BGC. Gellid mabwysiadu ymagwedd syml i fynd i'r afael â'r mater hwn. Gallai gwneud crynodeb o'r heriau yn y tymor byr, canolig a'r hirdymor ar gyfer pob thema gan nodi ble mae goblygiadau posibl arwyddocaol ar gyfer yr ardal, a bylchau yn eich dealltwriaeth o dueddiadau'r hirdymor helpu'r BGC i flaenoriaethu heriau hollbwysig lle mae angen gweithredu ar y cyd.

Bydd Llywodraeth Cymru'n cynhyrchu eu Hadroddiad Tueddiadau'r Dyfodol ym Mai 2017. Y bwriad ar hyn o bryd yw cynnwys 6 thema allweddol: Poblogaeth, Economi, Adnoddau Naturiol a Newid Hinsawdd, Iechyd, Defnyddio Tir a Seilwaith a Newid Cymdeithasol. Wrth iddo ddatblygu bydd angen i'ch asesiad dalu sylw i'r data a gynhwysir yn hwn, ond dylai anelu at roi pwyslais eglurach ar heriau'r hirdymor i lesiant yn yr asesiad cyntaf a gyhoeddir yn y misoedd sydd i ddod.

10. Materion trawsffiniol

Mae integreiddio a chydweithio'n ganolog i gyrff cyhoeddus pan fyddant yn cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy i'w gweithgareddau. Un o'n hamcanion fu adolygu i ba raddau y mae'r asesiad wedi ystyried materion trawsffiniol ar gyfer gweithredu rhanbarthol a chenedlaethol.

Credwn y byddai dadansoddiad manylach o faterion rhanbarthol trawsffiniol allweddol sy'n effeithio ar Sir Fynwy yn fuddiol, i drwytho eich cynllunio llesiant. Gallai'r asesiad ddarparu eglurhad cliriach o 'rôl' Sir Fynwy a'i pherthynas â'i hawdurdodau cyfagos yng Nghymru a Lloegr.

Bydd yna agwedd ranbarthol ar gydberthynas yn nhermau pob un o'r pedair thema llesiant, ac yn nhermau darpariaeth gwasanaethau a mynediad i wasanaethau a byddai'n ddefnyddiol i hyn fod yn fwy amlwg yn yr asesiad. Bydd hefyd yn bwysig i FGCau ystyried casgliadau asesiadau lleol o lesiant yr ardaloedd cyfagos wrth i gynllunio cynllun ddatblygu. Trafodwyd hyn fel rhan o'r sgwrs dros y ffôn gyda thîm y BGC.

Fel y trafodwyd fel rhan o'r sgwrs dros y ffôn, byddai'r asesiad ar ei ennill o ddehongliad pellach o'r modd y mae Prosiect Dinas-ranbarth Caerdydd yn debygol o effeithio ar bob agwedd o lesiant cymunedol ar draws Sir Fynwy. Hyd yn oed os ydyw'r effeithiau penodol yn ansicr ar hyn o bryd, mae'n amlwg y bydd yn cael dylanwad ar gydlyniant, cydraddoldeb, cydnerthedd ac yn y blaen. Dylid cynnwys dylanwad posibl y prosiect ym mhob adran o'r asesiad, tu hwnt i'r adran 'Llesiant Economaidd', gan ei fod yn debygol o gael effeithiau niferus ar draws gwahanol rannau o Sir Fynwy. Gellid rhoi gwell mewnwelediad hefyd o arwyddocad patrymau cymudo i lesiant yn Sir Fynwy, materion hollbwysig i seilwaith trafniadaeth a natur y gydberthynas ag awdurdodau Cymru a Lloegr a phartneriaid rhanbarthol eraill.

11. Ansawdd data a bylchau data

Bwriad Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yw sicrhau y bydd cynllunio llesiant yn broses barhaol lle bydd y sylfaen dystiolaeth yn gwella'n raddol dros amser i alluogi cyrff cyhoeddus ac eraill i ddeall a chynllunio ar gyfer llesiant yn eu cymunedau. Rydym yn awyddus i ddeall ymagwedd BGCau tuag at ansawdd data a bylchau data yn ystod yr asesiad ac wrth i faterion data symud yn eu blaen.

Bwriad y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yw gweld cynllunio llesiant yn broses barhaus lle bydd y sylfaen dystiolaeth yn gwella'n raddol dros amser, i alluogi cyrff cyhoeddus ac eraill i ddeall a chynllunio ar gyfer llesiant yn eu cymunedau. Rydym yn awyddus i ddeall ymagwedd BGCau tuag at ddata a bylchau data yn ystod yr asesiad ac wrth i faterion data symud rhagddynt.

Mae hwn yn faes lle buaswn yn disgwyl gweld yr asesiad yn gwella. Byddai'r ddwy ddogfen ar eu hennill o gael adran yn rhoi dealltwriaeth a dadansoddiad o fylchau data o wahanol agweddau ar y gwaith i ddeall beth allai fod ei angen yn y tymor byr, canolig a'r hirdymor – h.y. beth sydd ar goll sy'n bwysig yn awr ar gyfer trwytho datblygiad y Cynllun, beth fyddai'n dda i'w adeiladu arno dros y tymor canolig a beth yw'r materion data hirdymor. Byddai hyn yn galluogi'r BGC i adeiladu ar waith cyfredol a chynllunio ar gyfer gwella ansawdd data yn ystod y flwyddyn nesaf a thu hwnt, gan helpu partneriaid y BGC i adeiladu ymchwil data a rheolaeth i mewn i'w busnes a'u cynllunio corfforaethol. Byddai hefyd yn rhoi arwydd o anghenion y BGC i Lywodraeth Cymru, y Swyddfa ac Uned Ddata Cymru.

12. Defnyddio'r egwyddor datblygu cynaliadwy

Mae'r arweiniad statudol yn gosod cyfrifoldeb ar FGCau i facsimeiddio'u cyfraniad i'r nodau llesiant drwy ddefnyddio'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn eu dull o weithio. Rydym wedi bod yn awyddus i

ddeall sut mae'r egwyddor datblygu cynaliadwy a'r pum dull o weithio wedi cael eu defnyddio yn ystod asesiadau llesiant.

Mae'n amlwg bod yna elfennau yn eich ymagwedd sy'n dangos sut mae'r pum dull o weithio wedi cael eu hystyried fel rhan o'r broses o ddatblygu asesiad:

Hirdymor – drwy'r Adran Tueddiadau'r Dyfodol

Ymglyfraniad – drwy'r gwaith ymgynghori yr ymgwymerwyd ag ef ac sydd ar y gweill ar hyn o bryd

Cydweithio – drwy waith gyda phartneriaid statudol, GAVO a GSWAG

Tra caiff Atal ei grybwyll yng nghyd-destun ymyrraeth blynnyddoedd cynnar a'r amgylchedd, byddai'r Asesiad ar ei ennill petai'n disgrifio sut mae'r agenda ataliol yn hollbwysig i gynllunio llesiant a darpariaeth gwasanaethau cyhoeddus.

Ychydig o dystiolaeth a geir sy'n dangos bod yr egwyddor datblygu cynaliadwy wedi ei defnyddio fel modd o weithio yn yr asesiad hwn (gweler sylwadau ar Integreiddio ym mhwynt 9). Crybwyllir y pum dull o weithio sawl gwaith, heb ddisgrifiad o arwyddocâd y rhain i'r darn arbennig hwn o waith.

Byddai'r asesiad ar ei ennill o fod yn gliriach am y modd y mae'r egwyddor wedi newid ymagwedd y BGC tuag at y gwaith, a sut fydd yr egwyddor yn ffurfio'r broses cynllunio llesiant.

13. Edrych ymlaen at gynhyrchu'r cynllun

Mater hollbwysig i'n hadolygiad o'r asesiad hwn oedd ystyried a oedd y ddogfen yn eglur ynghylch y modd y byddai'r gwaith yn cael ei symud yn ei flaen i ddatblygu amcanion lleol a chynhyrchu cynllun.

Mae hwn hefyd yn faes lle buaswn yn disgwyl gweld yr asesiad yn gwella:

- Gellid gwella'r Crynodeb gydag Adran 'Y Camau Nesaf' ar gyfer ennyn ymgysylltiad pobl, cymunedau a phartneriaid yn y broses o gynllunio llesiant yn Sir Fynwy.
- Tra bod y brif ddogfen yn cynnwys adran 'Y Camau Nesaf', mae'n ffocysu ar broses ac amserlen 'fewnol' y BGC; nid yw'n amlwg sut fydd hyn yn digwydd, nac ychwaith sut fydd rhanddeiliaid yn parhau i ymglyfrannu.

Mae'n bwysig nodi'r angen am eglurhad pellach ar sut i gyfleu'r modd y bydd y deunydd sy'n cael ei gasglu yn yr asesiad yn cael ei ddefnyddio i fformiwleiddio amcanion ar gyfer y BGC. Dylai'r gwaith archwilio'r data a wnaethpwyd yn ddiweddar gyda phartneriaid fod yn rhan o'r naratif hwn.

14. Trosolwg

Mae'r dadansoddiad dogfennol uchod wedi adnabod nifer o feysydd lle gallai'r Asesiad, yn ein barn, gael ei gryfhau, yn y tymor byr, cyn iddo gael ei gyhoeddi a hefyd dros y tymor canolig wrth i'r dadansoddiad o'r ymateb ddatblygu ac wrth i'r Cynllun gael ei gynhyrchu. Hefyd gwnaethom drefnu galwad ffôn i drafod yr asesiad gydag aelodau o dîm y BGC oedd wedi ymgyfrannu yn y broses. Bwriad yr alwad ffôn oedd rhoi cyfle i ni egluro/archwilio materion arbennig a amlygwyd yn ein hadolygiad cyntaf a galluogi'r BGC i roi sylw i faterion sy'n rhan o gyd-destun ehangach cynhyrchiad yr asesiad.

Mae nifer o themâu eang cylchol wedi dod i'r amlwg o'n hadolygiad a'n sgwrs. Mae'n amlwg bod hon wedi bod yn dasg enfawr dros gyfnod cymharol fyr, a bod partneriaid wedi gwneud ymdrech fawr i gynhyrchu'r asesiad drafft. Dylai'r gwaith a wnaed hyd yn hyn, ac yn arbennig y modd y mae wedi ei reoli a'i strwythuro, alluogi'r BGC i ddatblygu ei dystiolaeth a chyfleu arwyddocâd y data i Sir Fynwy'n gyffredinol ac o fewn y pum ardal gymunedol.

Credwn fod angen mynd i'r afael â'r materion canlynol i wella'r asesiad:

Arwyddocad data - mwy o eglurhad ar arwyddocâd y data a heriau allweddol i lesiant

heriau - darparu dadansoddiad cliriach o heriau (a chyfleoedd) yn y tymor byr, canolig a'r hirdymor i lesiant

nodau llesiant - dealltwriaeth fanylach o'r berthynas rhwng y materion a adnabuwyd a'r saith nod llesiant cenedlaeth

integreiddio ar draws themâu - mwy o ffocws ar y gydberthynas rhwng y data a gasglwyd ar y pedair thema a goblygiadau hyn i lesiant

cyd-destun rhanbarthol - gwell dealltwriaeth o gydberthynas Sir Fynwy ag awdurdodau cyfagos yng Nghymru a Lloegr a Pharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, yn cynnwys dylanwad posibl y Prosiect Dinas-ranbarth

tueddiadau'r dyfodol - rhoi mwy o sylw i effaith posibl tueddiadau'r hirdymor ar Sir Fynwy'n gyffredinol a'r pum ardal gymunedol

Symud ymlaen - rhoi disgrifiad cliriach o sut mae data'r asesiad yn bwriadu cael ei ddefnyddio a sut fydd bylchau data'n cael eu rheoli a sut fydd cynllunio llesiant yn mynd rhagddo yn Sir Fynwy

Cydnabyddir y gellid mynd i'r afael â rhai o'r rhain yng ngweithgareddau arfaethedig y BGC rhwng nawr a chyhoeddiad terfynol yr asesiad.

Gobeithiwn y bydd y materion a godwyd uchod yn llywio'r cydweithio hwn fel bod yr elfennau hyn yn cael eu hadlewyrchu'n gryfach gan y BGC yn Asesiad Llesiant terfynol Pen-y-bont ar Ogwr a thrwy gydol y broses cynllunio llesiant.